# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**CA(3)-07-11**

## CA557: Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae adran 3 o Fesur Gwastraff (Cymru) 2010 ("y Mesur") yn sefydlu targedau statudol ar gyfer y ganran o wastraff trefol awdurdod lleol y mae'n rhaid ei ailgylchu, ei baratoi i'w ailddefnyddio a'i gompostio ("y targedau"). Mae'r Mesur hefyd yn gosod atebolrwydd ar awdurdod lleol i gosb ariannol os bydd yn methu cyrraedd targed. Mae'r Rheoliadau hyn yn atodi'r Mesur, drwy wneud darpariaeth fanwl ar gyfer monitro a gorfodi'r targedau.

### Gwaith craffu technegol

Mae'r pwynt a ganlyn wedi'i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:-

Mae Rheoliad 3 (1) yn ymdrin â'r darpariaethau mewn perthynas â'r awdurdod monitro. Mae'r testun Saesneg yn nodi: "the Environment Agency is the monitoring authority for the purposes of the targets." Fodd bynnag, mae'r fersiwn Gymraeg yn nodi mai Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r awdurdod monitro at ddibenion y targedau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio. Mae'r "targedau" wedi'u diffinio'n glir yn y testunau Cymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth clir rhwng rheoliad 3(1) yn y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Rheol Sefydlog 15.2 (vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg.

### Craffu ar ragoriaethau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn ar hyn o bryd.

### Cynghorwyr Cyfreithiol
### Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
### Mawrth 2011

**Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:**

Ymateb i'r materion a godwyd gan Gynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Fel y dywed yr adroddiad drafft, mae gwahaniaeth rhwng rheoliad 3(1) yn y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Er hynny, yr un ystyr sydd i'r ddwy ddarpariaeth, oherwydd y diffiniad o "targedau" yn rheoliad 2. Daw'r anghysondeb mewn perthynas â'r geiriau a ddefnyddir, o gymharu ag effaith neu wir ystyr y geiriau. Gan hynny, bydd y gwall yn cael ei gywiro wrth gyhoeddi.